# Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Bethesda 2023/2024

**Trefniant y Cyngor**

Clerc: Bethan Roberts, 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE
Ffôn: 01248 602131
E-bost: cyngorbethesda@ogwen.org
Wefan: https://www.partneriaethogwen.cymru/cy/cynghorau-cymuned/bethesda/

**Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Ward Ogwen | E Mary Jones |
| | Neville Hughes |
| | Gwilym Owen |
| | Catrin Wager |
| Ward Gerlan | Linda Brown |
| | Dyfrig Jones |
| | Ann Williams |
| | Einir Williams |
| | Bleddyn Williams |
| Ward Rachub | Walter Williams |
| | Huw V Jones |
| | Michael Williams |
| | Elin Prysor Williams / Paul Rowlinson |

**Is Bwyllgorau:**

**Cyllid ac Asesu Risg**
Neville Hughes, E Mary Jones, Einir Williams, Bleddyn Williams

**Personel a Chyflogaeth**
Linda Brown, Gwilym Owen, Dyfrig Jones, Ann Williams, Huw V Jones

**Goleuadau Cyhoeddus a Nadolig**
Walter Williams, Gwilym Owen, Ann Williams, Einir Williams

**Eiddo/Trosglwyddo Asedau**
Cadeirydd, Catrin Wager, Huw V Jones, Einir Williams, Bleddyn Williams

**Clwb Ieuenctid**
Dyfrig Jones, Walter Williams, Einir Williams, Ann Williams, Bleddyn Williams

**Cynrychiolaeth:**

**Balchder Bro Ogwen**
Neville Hughes, Walter Williams, Ann Williams, Catrin Wager

**Neuadd Ogwen**
E Mary Jones, Einir Williams, Walter Williams, Bleddyn Williams

**Panel Cyswllt Chwarel y Penrhyn**
Ann Williams, Einir Williams, Bleddyn Williams

**Partneriaeth Ogwen**
Dyfrig Jones, Michael Williams, Neville Hughes, Elin Prysor Williams, Bleddyn Williams

**Un Llais Cymru**
Walter Williams, Huw V Jones

**Ysgol Llanllechid**
Catrin Wager

**Ysgol Penybryn ac Abercaseg**
E Mary Jones

**Ynni Ogwen**
Elin Prysor Williams

**Cyfarfodydd y Cyngor**
Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes a drwy Zoom. Mae’r cyfarfodydd yn cael ei chynnal ar nos Iau ddiwethaf o bob mis, oni nodir yn wahanol. Nid yw’r Cyngor yn cyfarfod yn ystod mis Awst. Mae croeso i aelodau o’r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd yma, am fwy o fanylion, cysylltwch â’r Clerc.

**Seddi Wag**
Nid does gan y Cyngor sedd wag ar hyn o bryd.

**Gwybodaeth Ariannol**
Praesept ariannol y Cyngor eleni oedd £108,322.00. Yn flynyddol, mae’r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd ac archwiliad allanol gan Awdit Cymru.

Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Rhoddion**
Yn flynyddol, mae’r Cyngor Cymuned yn rhannu rhoddion yn dilyn derbyn ceisiadau gan fudiadau o

fewn y plwyf. Mae ceisiadau yn cael ei hysbysebu o fis Hydref pob blwyddyn. Mae angen i'r ffurflenni cais ynghyd a'r fantolen ddiweddaraf cyrraedd y Cyngor erbyn 31 o Ragfyr.
Dyma restr mudiadau derbyniwyd rhodd eleni:

Llais Ogwan
Clwb Camera Dyffryn Ogwen
Eglwys Crist Glanogwen
Gŵyl Afon Ogwen
Clwb Criced a Bowlio
Apêl Cronfa Cyfle i bawb yr Urdd
Dawns i Bawb
Ambiwlans Awyr Cymru
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Carnifal Bethesda
Theatr Bara Caws
Sefydliad y Merched, Carneddi
CFFI Eryri
Radio Ysbyty Gwynedd
Urdd Gobaith Cymru
Sioe Frenhinol Sir Caernarfon 2025
Hwb Ogwen

**Llwybrau**
Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor wedi neilltuo £4,500 o gyllid i wella cyflwr llwybrau'r fro.
Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn derbyn ad-daliad gan Gyngor Gwynedd am doriadau ar lwybrau categorïau 1 a 2.

**Cysodfannau Bws**
Trefnwyd ac aranir cysgodfan bws newydd ar Lon Newydd ger Plas Ffrancon. Cyfanswm cost yr cysgodfan newydd oedd £3,205 + VAT.

**Cynllun CCTV Stryd Fawr**
Dechreuwyd trafodaethau ffurfiol am osod sustem CCTV ar y stryd fawr yn ôl yn 2017. Yn dilyn llawer o waith cefndirol a thrafodaethau gyda Chyngor Gwynedd (a llawer o oedi oherwydd pandemig cofid), penderfynwyd trefnu cyfnod ymgynghori yn ystod mis Medi 2022 gyda phreswylwyr y stryd fawr a'r cyhoedd.

Anfonwyd llythyrau a chynlluniau at breswylwyr y stryd fawr ar ddechrau mis Medi 2022, yn gofyn am eu barn a sylwadau ar y cynlluniau arfaethedig. Cynhaliwyd noson ymgynghoriad yng Nghanolfan Cefnfaes ar y 20fed o Fedi 2022, ble'r oedd cyfle i'r cyhoedd weld a thrafod y cynlluniau a nodi eu sylwadau. Cafwyd 26 o ymatebion, gyda 22 o blaid, a 4 yn erbyn y cynllun.

Yn dilyn hyn, mae'r cynllun CCTV ar Stryd Fawr Bethesda wedi ei osod ac yn fyw ers mis Mehefin 2023. Ariannir y cynllun hwn i gyd gan Gyngor Cymuned Bethesda. Cyfanswm y gost am yr offer a gosod oedd

£29,192.58 + VAT. Mae gofyn i'r Cyngor ariannu'r ffi flynyddol am y cytundeb gwasanaeth i Gyngor Gwynedd sydd yn £5,000 y flwyddyn.

**Maes Parcio Gerlan**

Mae'r Cyngor dal i bwyso ar adeiladu Maes Parcio yng Ngherlan. Mae'r tir mewn sylw wedi newid perchnogaeth yn ystod 2023, ac mae'r Cyngor mewn cyswllt gyda'r perchennog newydd i drefnu pryniant cyn gynted a bu'r modd.

**Goleuadau Nadolig**

Cafodd gwaith atgyweirio ar y bocsys trydan a gosod bracedi newydd ei gwblhau yn ystod 2023. O ganlyniad, cafodd y goleuadau Nadolig ei osod ar hyd y Stryd Fawr, yn cynnwys y rhai canol y Stryd. Cafwyd adborth gwych gan y Gymuned.

**Toriadau Gwair**

Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi bod yn talu am doriadau ychwanegol ym Mynwent Coetmor, a bellach mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd am doriadau ychwanegol ar y darnau gwyrdd ar hyd yr A5.

**Clwb Ieuenctid**

Yn dilyn Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Ngwynedd yn 2018, mae trefniadau wedi bod mewn lle ble mae'r Cyngor Cymuned yn ariannu Clwb Ieuenctid a'r Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd yn rhedeg y clwb. Cytunwyd y Cyngor Cymuned eu bod yn hapus i ariannu'r gwasanaeth eto ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

**Parallel Bars Rachub**

Ym mis Mehefin 2023 cafodd parallel bars ei ariannu a'i osod yng Nghae Chwarae Rachub.

**Cynllunio**

Yn wythnosol, rydym yn derbyn ceisiadau cynllunio o Gyngor Gwynedd, lle gofynnir i'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y ceisiadau hyn.